# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Swyddogaethau eraill Archwilydd Cyffredinol Cymru*

### 22 Adroddiadau am arolygiadau arbennig

(1) Pan fo Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal arolygiad arbennig, rhaid i'r Archwilydd ddyroddi adroddiad.

(2) O ran adroddiad—

(a) rhaid iddo grybwyll unrhyw fater y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu amdano, o ganlyniad i'r arolygiad, fod yr awdurdod yn methu â chydymffurfio â gofynion y Rhan hon neu ei bod yn bosibl i'r awdurdod fethu yn y cyswllt hwnnw, a

(b) caiff argymell, os yw'n crybwyll mater o dan baragraff (a), fod Gweinidogion Cymru yn gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r ddau, sef—

(i) rhoi cymorth i'r awdurdod drwy arfer eu pwer o dan adran 28;

(ii) rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29.

(3) O ran yr Archwilydd Cyffredinol—

(a) rhaid iddo anfon copi o adroddiad at yr awdurdod o dan sylw ac at Weinidogion Cymru;

(b) os gwneir argymhelliad o dan is-adran (2)(b) mewn adroddiad, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol drefnu i'r argymhelliad gael ei gyhoeddi; a

(c) caiff gyhoeddi adroddiad ac unrhyw wybodaeth mewn cysylltiad ag adroddiad.

(4) Os bydd adroddiad yn datgan bod yr Archwilydd Cyffredinol yn credu, o ganlyniad i arolygiad, fod awdurdod gwella Cymreig yn methu â chydymffurfio â gofynion y Rhan hon, rhaid i'r cynllun gwella nesaf a baratoir gan yr awdurdod gofnodi—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 22 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(a) y ffaith honno, a

(b) unrhyw gamau sydd wedi'u cymryd, neu sydd i'w cymryd, gan yr awdurdod o ganlyniad i'r adroddiad.

[F1](5) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 22(5) wedi ei hepgor (1.4.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 113(e)**, 175(7); O.S. 2021/297, ergl. 2(b) (ynghyd ag erglau. 4, 5, 7-9)

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** A. 22 cymhwyswyd (gydag addasiadau) (1.4.2010) gan 2004 c. 21, a. 24(4)(5) (mewnosodwyd gan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (nawm 2), a. 53(2), **Atod. 1 para. 33**; O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), Atod. 2)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 22 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

**I2** A. 22 mewn grym ar 1.4.2010 gan O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), **Atod. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 22 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**

– Measure repealed by 2021 asc 1 s. 170(1)

Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– Sch. para. 10 omitted by 2018 anaw 2 Sch. 1 para. 16